# CANLYNIADAU 2022 – 2023

Datblygwyd **Cynllun Corfforaethol newydd** ar gyfer y Cyngor, sy'n alinio blaenoriaethau gyda Chynllun Llesiant Gwent ac Egwyddorion Marmot, gyda **ffocws ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'u lleihau a chefnogi'r rheiny y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt.**




## Mae Cymoedd Technoleg

yn cefnogi ein gweledigaeth i **Gymoedd De Cymru** fod yn ganolfan a gydnabyddir ar draws y byd ar gyfer datblygu **technolegau newydd i gefnogi diwydiant arloesol erbyn 2027**

Mae **Diogelu** ein dinasyddion yn ganolog i waith y Cyngor a chafwyd cynnydd da i gryfhau'r trefniadau diogelu corfforaethol sydd yn eu lle. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r fframwaith hyfforddiant diogelu corfforaethol sydd ar waith ar draws y Cyngor a monitro cydymffurfiaeth.

**Diogelu Gwent**
**Gwent Safeguarding**

Mae'r gwaith o gyflawni'r **Prosbectws Ynni** yn parhau, gyda diddordeb mewn datblygiadau ynni ar draws y Fwrdeistref i hwyluso cyflenwad ynni adnewyddadwy, er mwyn bodloni anghenion ynni'r dyfodol yn yr ardal, gan gynnwys ystyried prosiectau cynhyrchu ynni o'r gwynt ac ynni hydro.




## Gweithgareddau Allweddol




### Allyriadau Carbon 2022/23

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Newid ers y Flwyddyn Sylfaen | Newid ers y Llynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau Carbon Uniongyrchol **tunelli o $CO_2$e/ flwyddyn** | 14,750 | 11,793 | 13,087 | 12,332 | -16%* | -6%* |

Gwelwyd **cynnydd** yng nghanlyniadau **Cyfnod progress** (CA4) ar gyfer 2022 gyda gwelliannau yn 29 o'r 32 mesur allweddol.

- Gwelwyd gwelliant yng ngraddau TGAU A*/A ac A*-C mewn Saesneg, Gwyddoniaeth a Mathemateg.

Mae **niferoedd Plant sy'n Derbyn Gofal yn sefydlog o hyd** ac wedi symud o **196 i 197** o blant.

Mae **52.2%** o drigolion sy'n 16 oed neu'n hŷn ym Mlaenau Gwent yn **economaidd weithgar ac mewn gwaith.** Mae hyn yn **gynnydd o 2.7%** er 2011

**Datgloi 5G Cymru** yw'r prosiect arloesol y tu ôl i'r amgylchedd ymdrochi 360-gradd newydd yng Nglynebwy – un o nifer o dreialon sy'n dangos sut y gallai technoleg gwibgyswllt fel 5G drawsnewid cymunedau gwledig, o bweru arloesedd technegol mewn amaethyddiaeth, i wella cludiant yng nghefn gwlad ac addysg a chefnogi'r diwydiant twristiaeth.



Mae yna **4,035 o siaradwyr Cymraeg** yn byw ym Mlaenau Gwent, sydd gywerth â **6.2% o'r boblogaeth**

Cymraeg

Gwariwyd cyfanswm o **£188.7 miliwn** gan y Cyngor ar **ddarparu gwasanaethau** yn ystod 2021-22

Y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf o hyd ac mae'r fwrdeistref yn **cyflogi 2,953 o bobl**



O fewn Gwasanaethau Plant, prynwyd dau eiddo preswyl er mwyn darparu **gofal preswyl i blant ag anghenion mwy cymhleth** fel eu bod yn gallu cael gofal **yn agosaf at gartref** yn hytrach na thu allan i Flaenau Gwent a hyd yn oed Cymru.

## Cynnwys dinasyddion

Cynnwys dinasyddion

Yn ystod ein rhaglen o ymgysylltu yn gynnar yn 2023, roedd yna gyfle i bobl ym Mlaenau Gwent i rannu eu barn i'n helpu i gynllunio ein cyllideb a'n gwasanaethau o fis Ebrill 2023. Eleni cawsom y lefel uchaf o ymateb a welwyd ar gyfer unrhyw arolwg ymgysylltu ynghylch y gyllideb a wnaethpwyd gan y Cyngor, gyda 3,376 o holiaduron yn cael eu dychwelyd.


Mae presenoldeb yn yr ysgol yn dangos an gwelliant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
90.4%
Cynradd
85.8%
Uwchradd
Buddsoddwyd
£766k
mewn llwybrau
Teithio Llesol
Cytunwyd ar gynnydd o
4.2%
mewn cyllidebau Addysg ar gyfer 2023/24
Menter Technoleg Addysg Hwb – tua
£2m
ar gyfer
cyfleusterau TGCh mewn ysgolion
Mae 85%
o Unedau Diwydiannol y Cyngor yn cael eu defnyddio
Ataliwyd
64%
o aelwydydd dan fygythiad o
ddigartrefedd
rhag dod yn ddigartref
Cafwyd
133
Cwyn a 28
neges o ganmoliaeth
Dyfarnwyd
£127,527
i 16 o grwpiau cymunedol er mwyn gweithredu
prosiectau lleol
Cyhoeddwyd 79 o hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer
tipio anghyfreith lon sy'n gynnydd o
fwy na 400%
rhwng 2021/22 a 2022/23.
General Offices
Roedd y
gyfradd ailgylchu yn
66.78% ac yn
fwy na'r targed cenedlaethol o 64%
Cefnogwyd
6,132
o gwsmeriaid wyneb yn wyneb yn ein
hybiau cymunedol
25.8%
yn fwy o
Fusnesau newydd
yn ystod 3 mis cyntaf 2023 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
Cafodd 210
o oedolion
dechnoleg gynorthwyol electronig
63
o blant ar y gofrestr
amddiffyn plant
sef 3 yn llai na'r llynedd.